TIR NATUR

Prif Weithredwr Tir Natur

Adeiladu Dyfodol Ailwylltio yng Nghymru

Disgrifiad Swydd

Yn atebol i:	Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr
Yn gyfrifol am:	Yr holl staff, gwirfoddolwyr ac eiddo
Staff sy'n adrodd i'r rôl:	Rheolwr Cyfathrebu, Cydlynydd Cymunedau, Rheolwr Ailwylltio, Rheolwr Codi Arian
Oriau a thymor:	35 awr, yn amodol ar gyfnod prawf o 6 mis. Contract tymor penodol o 2 flynedd. Byddem yn hapus i ystyried swydd wedi'i rhannu er mwyn dod â'r bobl iawn i'r rôl. Rhowch wybod os byddai'n well gennych swydd ran-amser, gan weithio gyda pherson arall i sicrhau oriau llawn amser.
Cyflog:	£50,000 y flwyddyn *[gan gynyddu i £60,000 ym mlwyddyn 2]*
Gwyliau:	33 diwrnod gan gynnwys gwyliau cyhoeddus
Lleoliad:	Yn gyfan gwbl o bell, yng Nghymru. Mae angen trwydded yrru lawn y DU a mynediad at gar er mwyn teithio i leoliadau anghysbell.
Pensiwn:	Mae ein cynllun pensiwn gyda Nest – cyfraniad gweithiwr o 5%, cyfraniad cyflogwr o 5%
Pwrpas y Swydd:	Bydd y Prif Weithredwr yn gyfrifol am holl agweddau rheoli a gweithrediadau Tir Natur. Darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig ac effeithiol, gan gynnwys pennu a chyflawni nodau, darparu cyfeiriad clir a rheoli'r Elusen yn unol â'n hamcanion elusennol, a'n strategaeth a gymeradwywyd (hyd at 2028).

Arweinyddiaeth Sefydliadol a Llywodraethu

- Arwain ar weithrediadau a gwaith rheoli dydd i ddydd Tir Natur, gan sicrhau y caiff ei amcanion eu cyflawni'n effeithiol o fewn y strategaeth a gytunwyd, cyllidebau, polisïau ac awdurdod dirprwyedig.
- Gweithio'n agos gyda'r Cadeirydd a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, gan gyfathrebu'n rheolaidd, darparu adroddiadau clir a phrydlon, a sicrhau bod risgiau a materion sylweddol sy'n dod i'r amlwg yn cael eu codi'n brydlon.
- Sefydlu systemau rheoli, cyfrifoldebau clir a ffyrdd effeithiol o weithio, gan sicrhau y caiff blaenoriaethau eu cyflawni ac y caiff pherfformiad sefydliadol ei fonitro.

- Meithrin diwylliant sefydliadol effeithiol, cefnogol ac atebol, gan reoli a datblygu staff a gwirfoddolwyr allweddol a galluogi staff, gwirfoddolwyr ac ymgynghorwyr i gyfrannu'n effeithiol.
- Goruchwylio rheolaeth ariannol, cyllidebu, rheolaethau ariannol a gwaith adrodd, gan weithio'n agos gyda'r Trysorydd i sicrhau rheolaeth ariannol gadarn a chydymffurfiaeth â gofynion statudol ac archwilio.
- Sicrhau bod systemau priodol yn eu lle ar gyfer rheoli risg, iechyd a diogelwch, cyflogaeth, diogelu data, cydraddoldeb, cwynion a rhwymedigaethau statudol a rheoleiddiol eraill.
- Hyrwyddo diwylliant o ddysgu ac arloesi, gan sicrhau bod tystiolaeth, adborth a gwerthuso yn llywio datblygiad sefydliadol a'r gwaith o gyflawni canlyniadau ailwylltio.

Cynaliadwyedd Ariannol a Chodi Arian

- Arwain ar ddatblygiad cynaliadwyedd ariannol hirdymor Tir Natur, gan weithio gyda'r Bwrdd a'r Rheolwr Codi Arian i gryfhau incwm y sefydliad a sicrhau amrywiaeth o ffynonellau incwm, yn ogystal â bodloni'r ymrwymiadau ariannol presennol, er enghraifft ad-dalu'r benthyciad ar gyfer prynu'r tir.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r biblinell gyllid a nodi cyfleoedd ar gyfer grantiau, rhoddwyr sylweddol, cefnogaeth gorfforaethol a buddsoddiadau strategol, gan chwarae rhan weithredol yn y gwaith o feithrin perthnasoedd ariannu allweddol.
- Goruchwylio gweithgareddau codi arian a chefnogi digwyddiadau a mentrau eraill sy'n codi proffil Tir Natur ac yn denu cefnogaeth ariannol.

Partneriaethau, Eiriolaeth ac Ymgysylltu Allanol

- Gweithredu fel eiriolwr a llefarydd effeithiol ar ran Tir Natur, gan godi ymwybyddiaeth o botensial ailwylltio i gyfrannu at adferiad natur, gwytnwch yn wyneb newid hinsawdd, economïau gwledig a llesiant cymunedol ar draws Cymru.
- Cefnogi'r Cydlynydd Cymunedau i feithrin a chynnal perthnasoedd dibynadwy gyda chymunedau lleol, rheolwyr tir a rhanddeiliaid allweddol eraill.
- Ymgysylltu a meithrin perthnasoedd strategol â gwneuthurwyr penderfyniadau a llunwyr polisi allweddol, gan gynnwys cyrff cyhoeddus, cynrychiolwyr etholedig, sefydliadau amgylcheddol, sefydliadau academaidd, cyllidwyr a phartneriaid strategol eraill.
- Cynnal llwybrau agored ar gyfer cyfathrebu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio a datblygu partneriaethau sy'n cryfhau cyflawniad ac yn ymestyn effaith yr elusen.

Arweinyddiaeth Strategol ac Effaith

- Gweithio gyda'r Bwrdd i ddatblygu a chyflawni strategaeth yr elusen y tu hwnt i 2028, gan drosi ei gweledigaeth hirdymor yn gynlluniau busnes blynyddol, yn flaenoriaethau ac yn amcanion mesuradwy.
- Arwain ar ddatblygiad Tir Natur o'i brosiect cyntaf ar raddfa'r dirwedd tuag at fodel cynaliadwy sy'n gallu cefnogi mentrau ailwylltio ehangach ledled Cymru.
- Sefydlu dulliau effeithiol ar gyfer monitro a gwerthuso effaith ecolegol, cymdeithasol a sefydliadol, gan sicrhau bod tystiolaeth yn llywio penderfyniadau, yn arddangos cynnydd ac yn cefnogi datblygiad yn y dyfodol.

- Nodi cyfleoedd a risgiau strategol, addasu cynlluniau mewn ymateb i dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, amgylchiadau sy'n newid a dysgu o gyflawni.

Manyleb Person

Y Gymraeg
Mae Cymraeg llafar rhugl yn hanfodol. Bydd deiliad y swydd yn cynrychioli Tir Natur yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid Cymraeg eu hiaith.

Profiad a gwybodaeth hanfodol
- Profiad sylweddol mewn rôl uwch arweinyddiaeth neu reoli, gyda chyfrifoldeb dros gyflawniad sefydliadol, pobl ac adnoddau.
- Profiad o ddatblygu systemau sefydliadol effeithiol, gosod blaenoriaethau, monitro perfformiad a defnyddio tystiolaeth i gynyddu effaith.
- Profiad o gynllunio ariannol, cyllidebu a rheoli adnoddau i gefnogi cynaliadwyedd sefydliadol.
- Profiad o ddatblygu ac arwain timau effeithiol, meithrin diwylliant cydweithredol a chryfhau gallu sefydliadol.
- Dealltwriaeth o gyd-destun diwylliannol, hanesyddol a gwleidyddol cefn gwlad Cymru, gan gynnwys safbwyntiau gwahanol ar reoli'r tir, ailwylltio ac adfer natur.
- Dealltwriaeth gref o ailwylltio a'r egwyddorion sy'n sail iddo ac ymroddiad i hynny.

Sgiliau a galluoedd hanfodol
- Y gallu i drosi uchelgeisiau strategol yn flaenoriaethau clir, cynlluniau ymarferol a chanlyniadau mesuradwy.
- Sgiliau rhyngbersonol, cyfathrebu a dylanwadu cryf, gyda'r gallu i feithrin perthnasoedd o ymddiriedaeth ar draws cymunedau, rheolwyr tir, cyrff cyhoeddus, cyllidwyr a phartneriaid eraill.
- Y gallu i gynrychioli sefydliad yn hyderus yn y cyfryngau ac ymgysylltu'n adeiladol â materion heriol neu sensitif.
- Dull pragmatig, ymarferol a dyfeisgar, gyda'r gallu i farnu i flaenoriaethu'n effeithiol mewn sefydliad bach ag adnoddau cyfyngedig.
- Y gallu i nodi cyfleoedd, rheoli risg, addasu i amgylchiadau sy'n newid a dysgu er mwyn gwella cyflawniad.
- Y gallu i weithio'n effeithiol gyda Bwrdd o Ymddiriedolwyr, gan ddeall cyfrifoldebau llywodraethu ac arweinyddiaeth weithredol fel ei gilydd.

Priodweddau personol
- Angerdd am ailwylltio, adferiad natur a chyfranogiad cymunedol ystyrlon.
- Arddull arweinyddiaeth gydweithredol a chynhwysol sy'n meithrin ymddiriedaeth, yn datblygu eraill ac yn annog cyfrifoldeb ar y cyd.
- Lefel uchel o uniondeb, hunan-ymwybyddiaeth a pharodrwydd i fod yn agored, gan gynnwys y gallu i gydnabod pryd i geisio cyngor neu dynnu ar arbenigedd eraill.
- Gwytnwch, penderfynoldeb a dull adeiladol ar gyfer llywio gwahanol safbwyntiau ar reoli tir a dyfodol Cymru wledig.